**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** **24 Mai 2023**

---

**PWNC**

Eitem 5 : CYFRIFON GwE 2022-2023 - ALLDRO REFENIW

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y diweddariad ar adolygiad ariannol terfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23, gan nodi yr amrywiadau ariannol sylweddol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Darparwyd adroddiad terfynol i aelodau'r Cydbwyllgor sy'n nodi alldro refeniw ar ddiwedd y flwyddyn gyllidebol 2022-2023.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.s.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

---

**PWNC**

Eitem 6 : CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diwygiedig.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r CATC yn ddogfen drosolwg sy'n adnabod y prif faterion ariannol gaiff effaith ar GwE yn y blynyddoedd sydd i ddod.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Swyddog Cyllid Adran 151 yr Awdurdod Lletyol, yn dilyn cyfarwyddyd gan y Prif Weithredwyr, sydd yn cefnogi yr argymhelliad.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

---

**PWNC**

Eitem 7 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23 GwE

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn Adroddiad Blynyddol GwE 2022-2023 gan ystyried cynnal gweithdy i drafod materion penodol mewn mwy o fanylder.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol yn ôl Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad y gwasanaeth o safbwynt cyflawni swyddogaethau a nodau allweddol y gwasanaeth.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

---

**PWNC**

Eitem 8 : CYMERADWYO CYNLLUN BUSNES GwE 2023-2026

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo y Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2026

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes gan nodi ei fod yn amlinellu gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad y gwasanaeth, yn ogystal â'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, ategwyd bod y Cynllun Busnes yn rhoi sylw i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Thîm GwE, Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

**PWNC**

Eitem 9 : ADOLYGU'R GOFRESTR RISG

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr addasiadau diweddaraf i'r Gofrestr Risg.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cydbwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol..

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â Thîm GwE, Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

---

**PWNC**

Eitem 10 : ADOLYGU'R TREFNIADAU GWEITHREDU A'R STRWYTHUR STAFFIO PRESENNOL

---

**PENDERFYNIAD**

Gohirio yr Eitem a thrafod cyn gynted â phosib ar ôl Mehefin 7fed, 2023

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae cyfarfod o Brif Weithredwyr y Gogledd wedi ei drefnu ar gyfer Mehefin 7fed, 2023 a theimlwyd ei bod yn gynamserol i drafod yr eitem.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid penodol cyn gwneud y penderfyniad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

**PWNC**

Eitem 11 : YMGYNGHORIADAU

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y wybodaeth sydd wedi ei rannu ag aelodau'r Cyd-bwyllgor ynghylch ymgynghoriadau perthnasol dros ben sydd ar y gweill.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn nodi yr ymgynghoriadau, mae rôl yma i swyddogion GwE a'r Awdurdodau Lleol baratoi ymateb ar ran y Cyd bwyllgor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid arferol.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Dyddiad y Penderfyniad:** 24 Mai 2023

---

**PWNC**

Eitem 12 : DIWRNOD DATHLU Y DAITH DDIWYGIO - 22/06/2023

---

**PENDERFYNIAD**

Croesawu y bwriad i gynnal 'Marchnad Cwricwlwm i Gymru' i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar 22 Mehefin 2023 yn Venue Cymru, Llandudno er mwyn dathlu y daith ddiwygio hyd yma

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bydd yn gyfle i rannu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru (CiG) a dathlu llwyddiannau, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
Bydd hefyd yn gyfle i dreulio diwrnod yn gweld a gwrando ar ysgolion yn rhannu eu profiadau o'r daith ddiwygio hyd yma trwy weithdai a stondinau marchnad.
Yn ogystal bydd cyfle i wrando ar arbenigwyr yn rhannu o'u profiadau ac yn disgrifio'r gefnlen ryngwladol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol..

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol arferol.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, ac mae unrhyw sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---